Traws gwlad

Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Dyfed yng Nghaerfyrddin. Roedd cannoedd o blant yn rhedeg ym mhob ras a llongyfarchiadau i Sara Morgan (6ed), Holly Richards (6ed) a Craig Marshall (23)

Twrnament hoci

Bellach, mae'r tymor hoci ar ben ac ar ôl cystadlu brwd penllanw'r cyfan oedd y twrnament a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, Mawrth 28. Llongyfarchiadau i Ferched Bro Dafydd am ennill medalau a llongyfarchiadau arbennig i Ferched y Penrhyn am gipio'r safle gyntaf yn eu hadran. Da iawn chi ferched a diolch i Mrs Debbie Stone a Mrs Esther Morgan am eu hyfforddiant di-flino yn ystod y flwyddyn.

Pêl-droed

Llongyfarchiadau i Craig Marshall, Thomas Egan a Rhys Morgan ar gael eu dewis i chwarae i dîm Aberystwyth.